



DATGANIAD NEWYDDION

14 Mawrth 2022

Dyfarniadau Cwmni Lifrai Cymru yn hybu ymchwil i sglerosis ymledol a bywyd morol

Mae dau ymchwilydd o Brifysgol Abertawe wedi ennill ysgoloriaethau teithio gan Gwmni Anrhydeddus Lifrai Cymru, a fydd yn rhoi cyfle iddynt ddatblygu eu gwaith ymchwil a'i rannu gydag arbenigwyr eraill.

Mae gwaith Kristen Hawkins yn ymwneud â sglerosis ymledol ac mae William Kay yn ymchwilio i effaith datblygiadau ynni adnewyddadwy morol ar boblogaethau morloi.

Bydd y ddau ohonynt bellach yn cael cyfle i ymgymryd â gweithgareddau ymchwil pwysig i ddatblygu eu gwaith, diolch i gyllid gwerth £1,000 gan Gwmni Lifrai Cymru, yn dilyn cystadleuaeth a oedd ar agor i ymchwilwyr o Brifysgol Abertawe sydd newydd ddechrau eu gyrfa.

Un o nodau'r cwmni, a sylfaenwyd ym 1993, yw "hyrwyddo addysg, y celfyddydau, gwyddoniaeth a thechnoleg yng Nghymru". Mae'n cyflawni hyn drwy helpu pobl ifanc ledled Cymru i feithrin eu doniau a magu eu sgiliau drwy raglen flynyddol sy'n dyfarnu ysgoloriaethau a bwrsariau i fyfyrwyr mewn ysgolion, prifysgolion a cholegau technegol, yn ogystal â phrentisiaid a phobl ifanc yn y lluoedd arfog.

Esboniodd **Kristen Hawkins, sy'n gweithio yn yr Ysgol Feddygaeth**, sut byddai'r ysgoloriaeth yn hybu ei hymchwil i sglerosis ymledol (MS):

"Nod fy mhrosiect yw deall rôl ocsysterolau yng nghyd-destun MS. Mae ocsysterolau'n gyfansoddion sy'n deillio o golesterol, cyfansoddyn angenrheidiol sydd gennym i gyd yn ein cyrff. Fodd bynnag, rydym yn credu y gall y broses o'i ymddatod neu ei gynhyrchu fethu mewn achosion o MS.

Diolch i'r ysgoloriaeth, gallaf dreulio wythnos ym Manc Meinweoedd MS Coleg Imperial Llundain, sy'n cynnwys y casgliad helaethaf yn y byd o samplau o feinweoedd ymenyddol pobl ag MS.

Byddaf yn cael cyfle i baratoi samplau o feinweoedd ymenyddol a chael gafael ar hylif cerebrospinol o gasgliad unigryw'r coleg, gan gydweithio â'r Athro Richard Nicholas. Bydd ychwanegu'r samplau hyn o feinweoedd yn helpu i ddatblygu fy ngwaith ymchwil. Byddaf hefyd yn cyflwyno fy ngwaith ymchwil i arbenigwyr MS yn yr adran."

Bydd **William Kay o'r Coleg Gwyddoniaeth** yn rhannu ei waith ymchwil ar ffurf rithwir mewn cynhadledd fawr ar gyfer arbenigwyr rhyngwladol:

"Rydym yn wynebu argyfwng hinsawdd. Un o'r ffyrdd allweddol o liniaru newid yn yr hinsawdd yw drwy gefnogi'r broses o gynhyrchu trydan gwyrdd, megis drwy ddatblygiadau

ygni adnewyddadwy morol. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd y datblygiadau hyn yn peryglu bywyd morol sydd o bwys mawr i ni, gan gynnwys morloi.

Rwy'n ymchwilio i ymddygiad a symudiadau morloi mewn amgylcheddau llanw yng Nghymru sy'n cael eu clustnodi ar gyfer datblygiadau ygni adnewyddadwy morol, er mwyn lleihau'r perygl y byddant yn rhyngweithio'n niweidiol.

Rwy'n monitro'r morloi drwy ddefnyddio dyfeisiau biogofnodi a ddatblygwyd ym Mhrifysgol Abertawe. Gallaf ddefnyddio'r rhain i asesu'r perygl posib sy'n deillio o ddatblygiadau ygni adnewyddadwy morol a helpu i lywio mesurau lliniaru i leihau'r niwed. Bydd fy nghanfyddiadau'n helpu i ddiogelu bywyd morol a chefnogi'r diwydiant ygni adnewyddadwy morol drwy lywio prosesau cydsynio.

Bydd yr ysgoloriaeth yn fy ngalluogi i gymryd rhan yn y gynhadledd ymchwil uchaf ei bri yn fy maes ac i gyflwyno fy ngwaith ymchwil ynddi. Dyma gyfle i arddangos fy ngwaith ymchwil, siarad â rheoleiddwyr, a dysgu gwersi gan arbenigwyr yn y diwydiant ygni adnewyddadwy morol, yn ogystal â thynnu sylw at y datblygiadau cyffrous yn y maes yma yng Nghymru.”

Meddai Sylvia Robert-Sargeant, un o'r beirniaid yn y gystadleuaeth hon, wrth roi'r dyfarniadau hyn i Kristen a William:

“Un o nodau'r cwmni yw annog a helpu myfyrwyr i ddatblygu prosiect penodol. Rydym yn codi arian drwy ddigwyddiadau elusennol amrywiol a thrwy ymgyrraedd yn ehangach i'n gwŷr lifrai am gymorth ariannol, yn ogystal â'r gymuned ehangach yng Nghymru drwy wahodd cylchoedd busnes, ymddiriedolaethau a sefydliadau eraill sydd am hyrwyddo addysg, gwyddoniaeth, technoleg a'r celfyddydau yng Nghymru i gefnogi ein gweithgareddau.

Mae'r ddau brosiect cyffrous hyn yn dangos sut gall y fath waith arloesol wneud cyfraniad hanfodol at ymchwil feddygol ac amgylcheddol yng Nghymru. Rydym hefyd yn falch ein bod yn gallu cefnogi ymdrechion Kristen a William i feithrin a datblygu cysylltiadau ag arbenigwyr eraill yn eu meysydd.”

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion

Prifysgol o'r radd flaenaf a arweinir gan ymchwil sy'n meddu ar ddau gampws yw **Prifysgol Abertawe**. Mae'n cynnig profiad o safon i fyfyrwyr ac mae ganddi un o'r cyfraddau gorau yn y DU o ran cyflogadwyedd graddedigion. Mae'r Brifysgol wedi sicrhau'r dyfarniad uchaf posib ar gyfer addysgu – dyfarniad aur y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu yn 2018 – a chafodd ei chanmol am y ffaith bod cyfran mor uchel o'i myfyrwyr yn cael canlyniadau rhagorol yn gyson.

Dringodd Abertawe 14 safle i 31^{fed} yng nghanllaw prifysgolion y *Guardian* yn 2019, sef y brifysgol orau yng Nghymru, gydag un o'r cyfraddau gorau o ran llwyddiant graddedigion i gael gwaith yn y DU a'r un lefel o foddhad cyffredinol â'r brifysgol ar y brig.

Yng nghanlyniadau'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) yn 2014, gwnaeth Abertawe'r 'naid fwyaf ymysg sefydliadau sy'n rhoi pwyslais ar ymchwil' yn y DU (*Times Higher Education*, Rhagfyr 2014) a chyflawnodd ei huchelgais o gael ei chynnwys ymysg y 30 prifysgol ymchwil orau, gan ddringo'r gynghrair yn sydyn i gyrraedd y 26^{ain} safle yn y DU.

Mae'r Brifysgol ymysg y 300 o brifysgolion gorau yn y byd, wedi'i rhestru rhwng 251 a 300 yn nhabl Prifysgolion *Times Higher Education* yn 2018. Mae gan Brifysgol Abertawe 23 o bartneriaid pennaf, gan ddyfarnu graddau cyd-anrhydedd a chymwysterau ôl-raddedig.

Sefydlwyd y Brifysgol ym 1920 a hi oedd y brifysgol gyntaf yn y DU i gael ei lleoli ar un campws. Ar hyn o bryd, mae'n cynnig 350 o gyrsiau israddedig a 350 o gyrsiau ôl-raddedig i oddeutu 20,000 o israddedigion a graddedigion. Mae gan y Brifysgol gynlluniau uchelgeisiol i ehangu wrth iddi ddatlu ei chanmlwyddiant yn 2020 a'i nod yw parhau i ymestyn ei chyrraedd yn fyd-eang a gwireddu ei photensial yn y wlad hon ac yn rhyngwladol.

Mae Prifysgol Abertawe yn elusen gofrestredig. Rhif 1138342. Ewch i <https://www.swansea.ac.uk/cy/>

Rhagor o wybodaeth:

Kevin Sullivan, uwch-swyddog y wasg, Prifysgol Abertawe
k.g.sullivan@abertawe.ac.uk



Dilynwch ni ar Twitter: https://twitter.com/Prif_Abertawe



Dewch o hyd i ni ar Facebook: www.facebook.com/prifysgol.abertawe/